Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cafcass Cymru

# Canllawiau Ymarfer Ar Gyfer Cam-drin Domestig Cafcass Cymru

Mai 2025



**llyw.cymru**

# Cynnwys


1 **Cyflwyniad**

Beth yw dull Cafcass Cymru o ymdrin â cham-drin domestig?

Beth yw swyddogaethau statudol Cafcass Cymru?

Beth yw diben y Canllawiau Ymarfer ar gyfer Cam-drin Domestig?

3 **Canllawiau Ymarfer ar gyfer Cam-drin Domestig: Yn Gryno**

Briff 7 Munud

Pwyntiau Allweddol y Canllawiau

7 **Canllawiau Ymarfer ar gyfer Cam-drin Domestig**

Nodyn ar Derminoleg

Cefndir a Chyd-destun

Amcanion Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru a Cafcass Cymru

Diffiniad Deddf Cam-drin Domestig 2021

Ymddygiad Gorfodaethol a Rheolaethol


OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52047, ISBN digidol 978-1-83715-699-3
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cyflwyniad

## Beth yw dull Cafcass Cymru o ymdrin â cham-drin domestig?

Mae gan Cafcass Cymru ffrydiau gwaith niferus sy'n ymdrin â cham-drin domestig. Yn gyffredinol, mae'r ffrydiau hyn a'n Fframwaith Ymarfer cyffredinol yn gweithio i gefnogi diogelwch a llesiant plant ac oedolion sy'n ei ddioddef. Nid yw'r ddogfen canllawiau ymarfer hon yn bodoli fel elfen unigol i fynd i'r afael ag argymhellion Adroddiad y Panel Niwed (2020)[1]. Mae'n cefnogi ymarferwyr i ymgymryd â'u gwaith o safbwynt sy'n ystyriol o gam-drin domestig ac mae'n rhan o'n dull gweithredu cyffredinol ar gyfer ymdrin â cham-drin domestig ac ymarfer sy'n ystyriol o drawma.

## Fframwaith Ymarfer Cafcass Cymru

Ein ffocws cyffredinol fel sefydliad yw tynnu sylw at lais plant a phobl ifanc drwy eu taith yn y system cyfiawnder teuluol. Mae ein fframwaith ymarfer yn sail i'n holl waith ac mae'n esbonio'r ffordd rydym yn ceisio sicrhau'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc drwy ein gwerthoedd sefydliadol.

Fframwaith Ymarfer Cafcass Cymru

## Dull Gweithredul Safe & Together™

Mae holl ymarferwyr Cafcass Cymru wedi cael hyfforddiant ar ddull gweithredu Safe & Together™ sef model ymarfer ar gyfer cam-drin domestig sy'n canolbwyntio ar amddiffyn plant ac sy'n adnabyddus yn rhyngwladol.

Sefydliad Safe & Together™

## Canllawiau Ymarfer ar gyfer Cam-drin Domestig

Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys gwybodaeth a theori yn seiliedig ar gam-drin domestig, er mwyn meithrin dealltwriaeth ymarferwyr a rhoi arweiniad ar sut y dylid ymdrin â cham-drin domestig pan fyddwn yn rhyngweithio â theuluoedd. Mae'r dogfennau yn yr atodiadau yn cynnig cyfleoedd i ymarferwyr fyfyrio ar eu hymarfer mewn perthynas â cham-drin domestig a'i ddatblygu.

## Y Model Braenaru mewn Llysoedd Teulu

Mae pob llys teulu yng Nghymru bellach yn dilyn y model Braenaru. Mae'r broses hon yn caniatáu i waith amlasiantaethol effeithiol gael ei wneud ac i wybodaeth gael ei rhannu rhwng y llys teulu, awdurdodau lleol, yr heddlu a gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol. Mae'r olaf yn darparu asesiadau risg sy'n helpu ymarferwyr i wneud argymhellion diogel i'r llysoedd teulu sy'n ystyriol o gam-drin domestig.

## Rhwydwaith Eiriolwyr yn erbyn Cam-drin Domestig

Mae gan Cafcass Cymru Rwydwaith Eiriolwyr yn erbyn Cam-drin Domestig lle mae staff hunan-enwebedig yn ymgymryd â rôl eiriolwyr er mwyn helpu cydweithwyr yn eu timau i ddatblygu eu hymarfer sy'n ystyriol o gam-drin domestig.

1 Asesu'r Risg o Niwed i Blant a Rhieni mewn Achosion Plant Cyfraith Breifat – GOV.UK

## Rhwydwaith Eiriolwyr yn erbyn Cam-drin Domestig y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Mae dau o ymarferwyr Cafcass Cymru yn ymgysylltu'n rhagweithiol â Rhwydwaith Eiriolwyr yn erbyn Cam-drin Domestig y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

## Gwerthuso ac Archwilio Ymarfer

Mae Cafcass Cymru yn mynd ati i archwilio a gwerthuso ymarfer ym mhob rhan o'r sefydliad. Mae hyn yn ein galluogi i nodi arferion gorau y gellir eu rhannu ag ymarferwyr er mwyn gwella eu hymarfer mewn perthynas â cham-drin domestig. Mae hefyd yn rhoi'r wybodaeth i ni allu mynd i'r afael â heriau ac unrhyw anghenion sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas ag ymarfer sy'n ystyriol o gam-drin domestig.

## Beth yw swyddogaethau statudol Cafcass Cymru?

Mae Cafcass Cymru yn darparu cyngor a chymorth arbenigol sy'n canolbwyntio ar y plentyn er mwyn diogelu plant a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed mewn llysoedd teulu ledled Cymru.

Caiff y teuluoedd, y plant a'r bobl ifanc rydym yn gweithio gyda nhw eu hatgyfeirio atom gan lys, a bydd lles y plentyn yn y dyfodol wrth wraidd pob darn o gyngor ac argymhelliad a wneir gan Cafcass Cymru.

Rydym yn rhan o Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru. Rydym yn atebol i'r Gweinidog a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer Iechyd.

Ein swyddogaethau statudol yw:

- Diogelu a hybu lles plant.
- Rhoi cyngor i unrhyw lys ynghylch unrhyw gais a wneir iddo mewn achosion o'r fath.
- Gwneud darpariaeth ar gyfer cynrychioli plant mewn achosion o'r fath.
- Rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth arall i blant a'u teuluoedd.

Mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat, byddwn yn dod ar draws achosion o gam-drin domestig cyn ac ar ôl gwahanu sy'n faes ymholi sy'n berthnasol i'n swyddogaethau statudol.

## Beth yw diben y Canllawiau Ymarfer ar gyfer Cam-drin Domestig?

Bydd y canllawiau ymarfer hyn yn helpu ymarferwyr i ddeall effaith barhaol cam-drin domestig ar lesiant a diogelwch plant ac oedolion ac asesu'r effaith hon yn gywir. **Nod y canllawiau hyn yw eich helpu i gael eich arwain gan anghenion yn eich gwaith gyda theuluoedd a phlant;** maent yn cynnwys gwybodaeth, argymhellion ar gyfer gwaith darllen pellach, awgrymiadau ar gyfer arferion gorau a chwestiynau myfyriol i'ch cefnogi pan fyddwch yn gweithio gyda phlant a'u teuluoedd. Fe'ch anogir i ddefnyddio dull gweithredu ymchwiliol, gwrthrychol ac empathetig wrth ymdrin â phob asesiad a gyda phob teulu, gan ganolbwyntio ar ymddygiadau a'u heffaith mewn perthynas â llesiant plant, risg o niwed a diogelwch.

# Canllawiau Ymarfer ar gyfer Cam-drin Domestig: Yn Gryno

## Briff 7 Munud

Mae dogfen friffio 7 munud wedi cael ei datblygu i roi trosolwg o nodau ac amcanion y canllawiau ymarfer hyn.

## Pwyntiau Allweddol y Canllawiau

1. Mae'r **Ddeddf Cam-drin Domestig (2021)** yn cydnabod bod plentyn yn ddioddefwr-oroeswr cam-drin domestig os bydd yn gweld, yn clywed neu'n profi effeithiau cam-drin domestig ac yn perthyn i oedolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant sy'n ddioddefwr-oroeswr neu'n gyflawnwr cam-drin, neu'n cael gofal gan oedolyn o'r fath. Mae dyletswydd arnom i gynnal asesiadau sy'n nodi'n glir a oes tystiolaeth bod plentyn yn ddioddefwr-oroeswr cam-drin domestig, neu'n debygol o fod yn ddioddefwr-oroeswr cam-drin domestig. **Mae llawer o fathau posibl o dystiolaeth, ac ni allwn ddibynnu ar euogfarnau am gam-drin neu am droseddau eraill tebyg fel yr unig fath o dystiolaeth.**

2. Ar gyfer achosion sydd wedi bod yn mynd rhagddynt ers amser neu achosion mynych, achosion lle cadarnhawyd neu lle yr amheuir bod patrymau o ymddygiad camdriniol, hanes troseddol neu euogfarnau sy'n ymwneud â cham-drin domestig, trais corfforol, trais rhywiol gan gynnwys treisio, gwrandawiadau canfod ffeithiau blaenorol, adroddiadau gan yr heddlu neu adroddiadau diogelu eraill am gam-drin, rhaid i ymarferwyr nodi'r patrymau cam-drin a **chynnal asesiad priodol i ystyried a oes risg uchel o niwed, gan wneud argymhellion sy'n adlewyrchu'r risg hon.**

3. Mae'n rhaid i ymarferwyr asesu'r risg o niwed pellach lle caiff achos o gam-drin ei ddatgelu. Dylent ddogfennu datgeliadau yn gywir, gan ddefnyddio iaith yr unigolyn lle bo modd, heb ailddehongli na chyffredinoli. **Mae hyn yn sicrhau eglurder ac yn cynnal uniondeb y datgeliad.** Os bydd plentyn neu berson ifanc yn disgrifio unrhyw fath o gamdriniaeth, rhaid ymchwilio i hyn yn unol â gweithdrefn ddiogelu Cafcass Cymru. Dylid cofnodi disgrifiadau gan blant air-am-air.

4. **Yn ein hadroddiadau, byddwn yn osgoi defnyddio'r geiriau 'honni' neu 'honiadau'.** Yn anfwriadol, gallai'r termau hyn fwrw amheuaeth dros ddatgeliad neu bryder a godir gan rieni neu blant a phobl ifanc. Bydd y llysoedd yn parhau i ddefnyddio'r termau hyn gan eu bod yn dermau cyfreithiol; fodd bynnag, rôl Cafcass Cymru yw asesu lles y plentyn ac adrodd arno, nid penderfynu a yw honiadau yn wir.

5. Rhaid cydbwyso argymhellion ar gyfer amser teulu, ac ar ba ffurf y dylai hyn fod, yn erbyn y posibilrwydd o niwed i'r plentyn a'r oedolyn sy'n ddioddefwyr-oroeswyr. **Gall opsiynau amgen yn lle amser teulu 'wyneb yn wyneb' traddodiadol, e.e. llythyrau, cardiau a negeseuon e-bost, beri risg i lesiant plant ac oedolion o hyd. Dylid ystyried effaith yr opsiynau amgen hyn ar lesiant plant ac oedolion cyn eu hargymell.** I ddioddefwyr-oroeswyr, gall gorfod hwyluso galwadau fideo rhwng plentyn a chyflawnwr, neu gael llythyrau gan y cyflawnwr i'r cartref, beri rhagor o drawma ac efallai na fydd er lles pennaf yr oedolyn neu'r plentyn sy'n ddioddefwyr-oroeswyr. Mae angen i'r broses o bwyso a mesur yr effaith hon fod yn rhan o'r asesiad a'r dadansoddiad cyffredinol.

6. **Mae'n rhaid i brofiadau, dymuniadau, teimladau a safbwyntiau plant o ran eu profiad o gam-drin domestig gael eu nodi'n glir i'r graddau y gall ymarferydd wneud hynny'n rhesymol.** Os bydd plant yn rhy ifanc neu os bydd ganddynt anghenion ychwanegol, bydd angen sicrhau hyn i'r graddau y bo'n ymarferol o hyd, gan gynnwys drwy oedolion neu weithwyr proffesiynol eraill sy'n eu hadnabod. Rydym yn cydnabod y gall plant a phobl ifanc deimlo pwysau i dawelu llid rhieni sy'n gyflawnwyr er mwyn amddiffyn eu teulu ehangach neu nhw eu hunain a all, yn ei dro, effeithio ar y dymuniadau a fynegir ganddynt.

7. Mae'n rhaid i asesiadau **sy'n seiliedig ar gryfderau** gael eu cwblhau mewn perthynas ag ymdrechion neu lwyddiant rhieni/gofalwyr sy'n ddioddefwyr-oroeswyr i fod yn ffactor amddiffynnol i'w plentyn/plant os ydynt yn cael eu cam-drin gan riant/gofalwr arall. Rhaid cydnabod effaith ymddygiad cyflawnwyr ar eu gallu i fagu plant, ac ystyried sut y gallai'r gallu i fagu plant newid pe na bai'r ymddygiadau hyn yn ffactor.

8. **Rhaid defnyddio dull gweithredu croestoriadol ac sy'n ddiwylliannol ymwybodol wrth ddadansoddi'r risgiau i blant a'u teulu ehangach.** Mae angen deall cyd-destun diwylliannol y teulu, gan gynnwys unrhyw oblygiadau sy'n gysylltiedig â chredoau ac agweddau at gam-drin domestig dan ddylanwad diwylliannol, a'u hasesu mewn perthynas â niwed. Os bydd ymarferwyr yn ansicr, dylid gofyn i arweinwyr tîm, goruchwylwyr neu reolwyr am gyngor, cymorth a hyfforddiant pellach. Mae ceisio arweiniad a gwybodaeth drwy, gan ac ar gyfer gwasanaethau cymorth yn enghraifft o arfer orau; mae gan lawer linellau cymorth sydd ar agor i weithwyr proffesiynol yn ogystal â dioddefwyr-oroeswyr er mwyn cael rhagor o gymorth. **Os nad Cymraeg neu Saesneg yw'r iaith gyntaf, efallai na fydd terminoleg ar gyfer cam-drin domestig yn bodoli. Gall hil, diwylliant a chrefydd oll gyfrannu at brofiad unigolyn o gam-drin. Er nad yw'r ffactorau hyn yn esgusodi cam-drin, dylem geisio deall y sefyllfa o safbwynt y person, nid gwneud tybiaethau neu seilio asesiadau ar stereoteipiau, gan barhau i ddefnyddio dull gweithredu sy'n rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch.**

9. Os nodir bod cam-drin wedi'i gyflawni a/neu os bydd tystiolaeth o hyn, rhaid i'n hadroddiadau fod yn glir, **gan ddefnyddio iaith weithredol er mwyn dwyn rhieni i gyfrif am eu hymddygiad(au).** Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â'u hymddygiadau camdriniol yn benodol, asesu eu gallu i newid a gosod disgwyliadau clir o ran atebolrwydd a newid. I'r gwrthwyneb, efallai mai dim ond cydnabod cam-drin yn y gorffennol heb werthuso risg fydd dull gweithredu goddefol, gan ganolbwyntio dim ond ar allu'r rhiant sy'n ddioddefwr-oroeswr i fagu plant. **Rhaid i ni gofio y gall pob math o gam-drin domestig barhau ar ôl gwahanu, a bod hynny'n digwydd; gall y defnydd o lysoedd teulu fod yn ffordd o barhau i gam-drin ac arddel rheolaeth drwy orfodaeth.**

10. **Dylid osgoi disgrifio camdriniaeth 'hanesyddol' neu danseilio difrifoldeb camdriniaeth a'i disgrifio fel digwyddiadau untro.** Yn achos rheolaeth drwy orfodaeth, nid digwyddiad untro yw'r gamdriniaeth. Mae'n batrwm o ymddygiadau sy'n digwydd dros amser. Dylid asesu am batrymau a'r effaith gyffredinol ar y plentyn a'r oedolyn sy'n ddioddefwyr-oroeswyr.

11. Er mai llesiant a diogelwch plant yw ffocws gweithredol Cafcass Cymru, **mae'n rhaid i ni asesu risg ac effaith ein hargymhellion ar gyfer amser teulu mewn perthynas â diogelwch a llesiant aelodau perthnasol eraill o'r teulu**; er enghraifft, peidio â disgwyl i ddioddefwyr-oroeswyr oruchwylio ymweliadau pan fydd cam-drin domestig yn ffactor.

12. Mae'n rhaid i ymarferwyr ddarparu rhesymeg glir, bendant a chymhellol sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn eu hadroddiadau i'r llys ar gyfer argymell trefniadau 'amser gyda' neu 'byw gyda' rhiant sy'n gyflawnwr pan fydd y plentyn neu un rhiant neu'r ddau riant wedi rhoi gwybod i'r ymarferydd am achos o gam-drin domestig a niwed.

13. Mae Cafcass Cymru wedi ymrwymo i weithio yn unol â model Safe & Together™. Bydd pob ymarferydd yn cael hyfforddiant ar y model ymarfer hwn. Mae'r model hwn yn gosod safonau uchel o ran magu plant i'r ddau riant, ac **mae'n ystyried bod cyflawni cam-drin domestig yn ddewis magu plant sy'n achosi niwed a thrawma parhaol i ecoleg y teulu**.

14. **Mae llysoedd teulu yng Nghymru yn ymarfer o dan y model Braenaru.** Nod y broses hon yw canolbwyntio mwy ar y plentyn a bod yn fwy ystyriol o drawma, gan leihau am ba hyd y caiff achosion eu hystyried yn y llys. Mae Cafcass Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau cymorth arbenigol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n chwarae rhan werthfawr fel partneriaid atgyfeirio yn y broses hon. Mae partneriaid atgyfeirio arbenigol yn cwblhau ffurflen asesu risg DASH a fydd yn helpu ymarferwyr i ddefnyddio dull gweithredu sy'n ystyriol o gam-drin domestig wrth lunio eu hadroddiadau. **Nid yw ymarferwyr Cafcass Cymru yn cwblhau ffurflen asesu risg DASH.**

15. **Disgwylir i ymarferwyr fyfyrio ar eu hymarfer mewn perthynas â phob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gynnwys rheolaeth drwy orfodaeth, a datblygu eu hymarfer yn gyson**. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan ym mhrosesau goruchwylio, cymorth gan gymheiriaid a hyfforddiant Cafcass Cymru, sy'n helpu ymarferwyr Cafcass Cymru i weithio gyda theuluoedd mewn ffordd sy'n ystyriol o gam-drin domestig a thrawma.

16. Mae [Fframwaith Ymarfer Cafcass Cymru] yn addo y byddwn yn defnyddio dull gweithredu sy'n rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch pan fyddwn yn rhyngweithio â phlant a'u teuluoedd. Gan fod pob math o gam-drin domestig yn peri risg i ddiogelwch plant ac oedolion, byddwch yn asesu ei effaith yn rhagweithiol. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut a ble y byddwn yn siarad â theuluoedd; **er enghraifft, caiff anghenion diogelwch rhieni a phlant a all fod yn byw mewn lloches eu hystyried yn ein dull gweithredu**.

17. **Byddwn yn defnyddio dull gweithredu sy'n ystyriol o drawma a cham-drin domestig pan fyddwn yn rhyngweithio â phlant ac oedolion sy'n cael eu cam-drin gan gyflawnwyr**. Mae hyn yn cynnwys gweithio mewn ffyrdd i liniaru'r risg o aildrawmateiddio. Gallwn wneud hyn drwy fod yn agored, dangos empathi a pheidio â beirniadu wrth gynnal trafodaethau â phlant ac oedolion. Un rhan o broses y llys teulu yw Cafcass Cymru; rydym yn cydnabod na allwn atal unigolion rhag dioddef rhagor o drawma drwy'r llys teulu ar ein pen ein hunain, ond byddwn yn gwrando ac yn llunio adroddiadau cywir ar effeithiau cam-drin.

18. Nid yw Cafcass Cymru yn cymeradwyo'r defnydd o'r term 'dieithrio plentyn oddi wrth riant' nac yn cydnabod 'syndrom dieithrio plentyn oddi wrth riant'. Mae hyn yn unol â'r canllawiau a gyflwynwyd gan y [Cyngor Cyfiawnder Teuluol]. Mae hanes y termau hyn wedi'i drwytho mewn ffugwyddor niweidiol a chasineb at fenywod a cheir achosion cynyddol lle mae cyflawnwyr ac arbenigwyr honedig yn eu camddefnyddio yn y llys teulu. **Fel yr ategir gan y canllawiau, mae cysyniad dieithrio plentyn oddi wrth riant yn ddadl begynol yn aml sy'n wrthgynhyrchiol i les pennaf plant, gan symud y pwyslais oddi wrth lais y plentyn.**

19. Lle bydd ymddygiadau dieithrio wedi cael eu codi gan riant, gan ddilyn y canllawiau uchod, rhaid i ymarferwyr ystyried rhesymau pam mae plentyn yn gyndyn o ymgysylltu â rhiant neu ofalwr neu'n gwrthod gwneud hynny. Rhaid iddynt hefyd asesu a yw'n wrthodiad cyfiawn a phriodol nad yw'n cael ei achosi gan y rhiant arall; mae'n bosibl y bydd plant yn gwrthod rhiant, a hynny'n deg, sydd wedi dangos ymddygiadau camdriniol neu niweidiol tuag atynt neu tuag at eu teulu ehangach, ac sy'n gwrthod newid o hyd. **Mewn achosion cam-drin domestig a rheolaeth drwy orfodaeth, mae hefyd yn bosibl i rieni sy'n gyflawnwyr ddieithrio eu plentyn/plant oddi wrth y rhiant sy'n ddioddefwr-oroeswr**.

# Canllawiau Ymarfer ar gyfer Cam-drin Domestig

## Nodyn ar Derminoleg

Noder y byddwn yn defnyddio'r derminoleg ganlynol drwy gydol y ddogfen hon:

**Cyflawnwr/cam-drin:** person sydd wedi cyflawni trais neu gamdriniaeth yn erbyn un arall.

**Dioddefwr/goroeswr/dioddefwr-oroeswr:** Term yw dioddefwr sy'n cyfeirio at berson sydd wedi dioddef niwed, dan ddwylo person arall neu ddigwyddiad. Caiff y term goroeswr ei ddefnyddio'n eang mewn gwasanaethau cam-drin domestig i gyfeirio at bobl sydd wedi cael eu cam-drin; mae'n well gan lawer o bobl y term hwn gan ei fod yn dilysu eu cryfder, gan symud y naratif o'r hyn a wnaed iddynt i un sy'n canolbwyntio ar weithredu a gwella.

**Honni/honiadau:** Mae llysoedd yn defnyddio termau fel honedig a honiadau er mwyn parhau'n ddiduedd a chynnal proses gyfreithiol gyfiawn. Fodd bynnag, mae Cafcass Cymru yn canolbwyntio ar les plant, gan adrodd ar eu profiadau mewn ffordd niwtral heb gyfleu amheuaeth. Asesu yw ein rôl ni, nid penderfynu beth sy'n wir, gan sicrhau bod adroddiadau yn wrthrychol wrth i lysoedd benderfynu ar dystiolaeth a chanfyddiadau cyfreithiol. Dim ond yn y rhannau o'r canllawiau sy'n ymwneud â phrosesau cyfreithiol y defnyddir 'honiadau' a 'honni'. Dylai ymarferwyr Cafcass Cymru osgoi defnyddio'r derminoleg hon mewn adroddiadau neu drafodaethau â rhieni/plant, er mwyn sicrhau y gellir datblygu cydberthnasau gwaith effeithiol â theuluoedd.

**Datgeliad(au):** Caiff y term datgeliad ei ddefnyddio'n gyson ymhlith sefydliadau trydydd sector, sector cyhoeddus a sector preifat. Er mwyn sicrhau cysondeb, caiff y term datgeliad ei ddefnyddio yn y ddogfen hon i gyfeirio at oedolion sy'n dweud wrth weithiwr proffesiynol eu bod wedi cael eu cam-drin. Ni ddylai gweithwyr proffesiynol ddibynnu ar ddatgeliad dioddefwr-oroeswr fel yr unig ffordd o nodi achos o gam-drin ac ymdrin ag ef; dylem geisio nodi ac asesu arwyddion cam-drin nad ydynt yn cael eu cyfleu'n benodol ar lafar, a sgwrsio ag unigolion er mwyn ymchwilio ymhellach. Drwy ddibynnu'n llwyr ar ddioddefwyr-oroeswyr i ddatgelu achos o gam-drin, rydym yn rhoi'r cyfrifoldeb arnynt i ymdrin ag ef, er gwaethaf y rhwystrau y maent yn eu hwynebu wrth wneud hynny.

Yn ogystal, bydd dioddefwyr-oroeswyr nad ydynt yn gallu datgelu achos o gam-drin yn uniongyrchol. Gallai enghreifftiau gynnwys unigolion sydd ag anghenion ychwanegol, anghenion cyfathrebu neu sydd ofn y sgil-effeithiau o ganlyniad i ddatgelu achos o gam-drin.

Rydym yn cydnabod bod y defnydd o'r term datgeliad wedi cael ei gwestiynu ym maes amddiffyn plant yn unol ag argymhellion Adroddiad Cleveland (1987)[2], ac os bydd plentyn neu berson ifanc yn disgrifio achos o gam-drin, neu rywbeth rydych yn amau y gallai fod yn achos o gam-drin, dylech ymchwilio iddo â diwydrwydd dyladwy a gan ddilyn y gweithdrefnau diogelu cywir.

2 www.bmj.com/content/bmj/297/6642/190.full.pdf

Os bydd amheuon o gam-drin yn deillio o waith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc, nid ydym yn dibynnu arnynt i ddatgelu cyn cymryd camau i ddiogelu ac ymchwilio, oherwydd y gweithiwr proffesiynol ddylai fod yn gyfrifol am adnabod arwyddion ac ymchwilio iddynt yn y lle cyntaf. Mae'r adnoddau canlynol gan y Gymdeithas Gweithwyr Amddiffyn Plant Proffesiynol a Triangle yn cynnig rhagor o wybodaeth a chanllawiau i ymarferwyr ar y pwnc hwn:

- Our language matters – Why we should stop using the term 'Disclosure' in child protections (Association of Child Protection Professionals)
- Opening Doors article (Triangle)

## Cefndir a Chyd-destun

Mae Cafcass Cymru yn cydnabod cyffredinrwydd cam-drin domestig a'i effaith sylweddol ar fywydau plant a'u teuluoedd ledled Cymru.

Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr 2023[3] yn amcangyfrif bod 2.1 miliwn o bobl 16 oed a throsodd (1.4 miliwn o fenywod a 751,000 o ddynion) wedi dioddef cam-drin domestig yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023.

Mae'r Ddeddf Cam-drin Domestig (2021)[4] yn cydnabod bod plant sy'n byw mewn amgylcheddau lle mae cam-drin yn ffactor rhwng rhieni neu aelodau o'r teulu ehangach hefyd yn ddioddefwyr-oroeswyr cam-drin. Mae hyn yn cynnwys y rhai nad ydynt yn dargedau uniongyrchol achosion penodol o gam-drin neu nad ydynt yn bresennol pan fyddant yn digwydd. Gall tyfu i fyny mewn amgylchedd camdriniol gael effaith emosiynol a seicolegol ar lesiant plant a phobl ifanc, gan achosi cryn niwed.

Nid yw'r ystadegau ar eu pen eu hunain yn rhoi manylion i ni am gyd-destun a phrofiadau unigolion. **Mae pob teulu, plentyn, person ifanc ac oedolyn yn unigryw, ac mae'n hanfodol ein bod yn defnyddio ein sgiliau ymchwilio a meddwl yn feirniadol i ddeall eu profiadau unigol yn ogystal â chyd-destun ehangach ecoleg y teulu.**

Er mwyn deall effaith cam-drin ar blant a phobl ifanc, rhaid i ni hefyd ystyried effaith a dynameg cam-drin rhwng rhieni neu ofalwyr. Mae'n bosibl y byddwn yn dod ar draws cam-drin mewn ffyrdd gwahanol, gan gynnwys:

- un rhiant yn cam-drin y llall
- camdriniaeth tuag at neu a gyflawnir gan rieni sydd wedi gwahanu mewn perthnasoedd newydd/presennol (h.y. llys-rieni)
- camdriniaeth deuluol a gyflawnir gan aelodau ehangach o'r teulu neu gymunedau
- tuag at blant a phobl ifanc o bob oed yn y teulu, p'un a ydynt yn byw yn y lleoliad domestig uniongyrchol ai peidio.

Ni waeth sut y bydd yn digwydd, mae'n hanfodol asesu ei effaith ar y teulu cyfan, gan gynnwys oedolion a phlant sy'n ddioddefwyr-oroeswyr, a gallu'r cyflawnwr i fagu plant yn ddiogel er lles pennaf y plentyn.

## Sut mae hyn yn gweithio yn ymarferol?

**I oedolion sy'n cam-drin:**

- Nodwch ymddygiadau camdriniol, treisgar neu reolaethol sy'n effeithio ar lesiant y teulu.
- Nodwch fod cam-drin yn ddewis magu plant a gosodwch safonau uwch ar gyfer y rhiant sy'n cam-drin o ran magu plant.

3 Domestic abuse in England and Wales overview – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)
4 Deddf Cam-drin Domestig 2021 - GOV.UK (www.gov.uk)

- Aseswch allu'r rhiant i newid, ynghyd ag atebolrwydd y rhiant a ph'un a yw'n cydnabod y niwed a achoswyd.
- Gwerthuswch batrymau cam-drin mewn perthnasoedd blaenorol neu bresennol er mwyn asesu'r risg barhaus.
- Os na fydd unrhyw dystiolaeth o newid neu ddealltwriaeth, dylech amlinellu'r niwed posibl y gall cyswllt parhaus ei achosi i ddioddefwyr-oroeswyr yn eich argymhellion.

**I oedolion nad ydynt yn cam-drin:**

- Nodwch a chydnabyddwch y ffordd y mae ymddygiad y cyflawnwr yn effeithio ar ddewisiadau a gallu i fagu plant y rhiant nad yw'n cam-drin.
- Nodwch y ffordd y mae'n cefnogi llesiant a diogelwch y plant er gwaethaf y gamdriniaeth, gan ddefnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau.
- Ystyriwch sut y gallai dulliau magu plant y rhiant fod yn wahanol pe na bai ymddygiad y cyflawnwr yn ffactor.

## Amcanion Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru a Cafcass Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i fynd i'r afael â cham-drin domestig drwy Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015[5,6]. Isod ceir yr amcanion a amlinellir yn Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r ffordd y mae gwaith Cafcass Cymru yn cefnogi'r nodau hyn.

## Amcan 1

**Herio agwedd y cyhoedd tuag at drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ledled poblogaeth Cymru drwy godi ymwybyddiaeth ac ysgogi trafodaeth gyhoeddus gyda'r nod o leihau'r achosion ohono.**

- Drwy nodi ymddygiadau camdriniol yn ein hadroddiadau ac ymdrin â nhw, rydym yn helpu i godi ymwybyddiaeth a chyfrannu at y trafodaethau ehangach ynghylch cam-drin domestig.
- Mae ein harbenigedd yn ein galluogi i dynnu sylw at effaith cam-drin domestig ar blant a phobl ifanc, gan gefnogi'r Ddeddf Cam-drin Domestig (2021), sy'n cydnabod eu bod yn ddioddefwyr-oroeswyr.

## Amcan 2

**Cynyddu ymwybyddiaeth plant, pobl ifanc ac oedolion o bwysigrwydd cydberthnasau diogel, cyfartal ac iach a'u grymuso i wneud dewisiadau personol cadarnhaol.**

- Gan ddefnyddio model Safe & Together™, rydym yn nodi cryfderau'r rhiant nad yw'n cam-drin ac yn dwyn cyflawnwyr i gyfrif, gan gydnabod mai dewis magu plant yw cam-drin.
- Rydym yn sicrhau bod plant sy'n mynd drwy'r system llys teulu yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi, gan atgyfnerthu bod achosion o'u cam-drin nhw neu eu teulu yn annerbyniol.

---

5 Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2022-2026
6 Violence against women, domestic abuse and sexual violence: strategy and progress – GOV.WALES

## Amcan 3

**Cynyddu'r ffocws ar ddwyn y rhai sy'n cam-drin i gyfrif a chefnogi'r rhai a all ymddwyn yn gamdriniol neu'n dreisgar i newid eu hymddygiad ac osgoi troseddu.**

Mae model Safe & Together™ yn ein helpu i asesu ymddygiad cyflawnwyr, gan werthuso'r risg i blant a phobl ifanc a'r effaith arnynt. Mae hyn yn ein galluogi i ddwyn cyflawnwyr i gyfrif ac asesu eu gallu i newid yn ein hadroddiadau a'n hargymhellion.

## Amcan 4

**Rhoi blaenoriaeth i ymyrryd yn gynnar ac atal.**

- Drwy'r model Braenaru, rydym yn ceisio nodi achosion o gam-drin domestig yn gynnar er mwyn atal niwed pellach a chyfleoedd i'r rhai sy'n cam-drin gamddefnyddio'r system llys teulu.
- Rydym yn cefnogi atgyfeiriadau at wasanaethau cam-drin domestig arbenigol, gan sicrhau bod dioddefwyr-oroeswyr yn cael cyngor sy'n ystyriol o drawma a chymorth arbenigol.
- Pan fydd cyflawnwyr yn cydnabod eu hymddygiad camdriniol ac yn ceisio cymorth neu gyngor i fynd i'r afael ag ef, byddwn yn eu cyfeirio at wasanaethau megis llinell gymorth Respect.

## Amcan 5

**Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr.**

- Bydd pob ymarferydd yn cael hyfforddiant ar fodel Safe & Together™ a dylai ymarferwyr barhau gyda'u datblygiad proffesiynol drwy gwblhau hyfforddiant rheolaidd ar gam-drin domestig, rheolaeth drwy orfodaeth a thrais rhywiol.
- Mae plant a phobl ifanc yn ddioddefwyr-oroeswyr cam-drin domestig a cham-drin rhywiol. Rhaid cymryd eu meddyliau, eu pryderon a'u profiadau o ddifrif, ac mae ein harbenigedd yn sicrhau y gallwn ymateb yn effeithiol i'w hanghenion. Ein nod yw sicrhau y caiff eu lleisiau eu clywed yn y llysoedd teulu.

## Amcan 6

**Rhoi mynediad cyfartal i bob dioddefwr at wasanaethau, a'r rheini'n wasanaethau croestoriadol o ansawdd uchel, y darperir adnoddau priodol ar eu cyfer, sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n ymatebol ledled Cymru.**

- Nodi cam-drin domestig yn gynnar a chyfeirio dioddefwyr at wasanaethau cymorth arbenigol sy'n diwallu eu hanghenion unigol.
- Nodi cryfderau rhieni, plant a phobl ifanc a thynnu sylw at eu hanghenion yn ein hadroddiadau/argymhellion.
- Cydnabod profiadau amrywiol dioddefwyr-oroeswyr, gan gynnwys y rhai o gymunedau a ymyleiddiwyd, a sicrhau bod ein dull gweithredu yn gynhwysol ac yn croestoriadol.
- Defnyddio ein harbenigedd proffesiynol i dynnu sylw at effaith cam-drin ar blant a phobl ifanc, gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ac y caiff eu hanghenion eu blaenoriaethu.

## Diffiniad Deddf Cam-drin Domestig 2021

Mae'r Ddeddf Cam-drin Domestig (2021) yn diffinio cam-drin domestig fel a ganlyn:

**Nid yw'r rhan hon o'r ddogfen ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw.**

Behaviour of a person (A) towards another person (B) is 'domestic abuse' if:

a. they are each aged 16 or over and are personally connected to each other, and
b. the behaviour is abusive.

Behaviour is abusive if it consists of any of the following:

a. physical or sexual abuse
b. violent or threatening behaviour
c. controlling or coercive behaviour
d. economic abuse
e. psychological, emotional, or other abuse

and it does not matter whether the behaviour consists of a single incident or a course of conduct.

Economic abuse means and behaviour that has a substantial adverse effect on B's ability to:

a. acquire, use or maintain money or other property, or
b. obtain goods or services.

A's behaviour may be behaviour 'towards' B despite the fact that it consists of conduct directed at another person (for example, B's child).

Definition of personally connected:

- they are, or have been, married to each other
- they are or have been civil partners of each other
- they have agreed to marry one another (whether or not the agreement has been terminated)
- they have entered into a civil partnership agreement (whether or not the agreement has been terminated)
- they are, or have been, in an intimate personal relationship with each other
- they each have, or there has been a time when they each have had, a parental relationship in relation to the same child (see subsection (2))
- they are relatives.

A person has a parental relationship in relation to a child if:

- the person is a parent of the child, or
- the person has parental responsibility for the child.

In this section:

- "child" means a person under the age of 18 years
- "civil partnership agreement" has the meaning given by section 73 of the Civil Partnership Act 2004
- "parental responsibility" has the same meaning as in the Children Act 1989 (see section 3 of that Act)
- "relative" has the meaning given by section 63(1) of the Family Law Act 1996.

Mae **Cyfarwyddyd Ymarfer 12J** – Gorchmynion Trefniadau Plentyn a Chyswllt: Cam-drin Domestig a Niwed, yn defnyddio'r un diffiniad o gam-drin domestig â Deddf 2021.

## Ymddygiad Gorfodaethol a Rheolaethol

**Ymddygiad gorfodaethol:**
Gweithred neu batrwm o weithredoedd, ymosodiadau, bygythiadau, ymgeisiau i godi cywilydd neu fygylu neu gamdriniaeth arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu godi ofn ar y dioddefwr.

**Ymddygiad rheolaethol:**
Ystod o weithredoedd â'r nod o wneud pobl yn israddol a/neu'n ddibynnol drwy eu hynysu oddi wrth ffynonellau cymorth, ecsbloetio eu hadnoddau a'u gallu er budd personol, eu hatal rhag bod yn annibynnol, gwrthsefyll a dianc a rheoli eu hymddygiad pob dydd

**Pŵer a Rheolaeth:**
Un elfen allweddol mewn unrhyw asesiad cam-drin domestig, boed hynny er mwyn asesu risg neu ddeall y cyd-destun, yw deall dynameg pŵer y berthynas.

Ym mhob achos cam-drin domestig, bydd un person sy'n ceisio cadw pŵer a rheolaeth dros y llall bob amser.

Mewn achosion pan fydd y cwpl wedi gwahanu, bydd angen i chi ymchwilio i hanes y berthynas er mwyn pennu patrymau o gam-drin, gorfodaeth a rheolaeth a phatrymau o reolaeth sydd wedi parhau ar ôl gwahanu.

Diffiniodd Evan Stark (2007)[7], arbenigwr arweiniol ar gam-drin domestig, reolaeth drwy orfodaeth fel patrwm o ymddygiadau camdriniol y bwriedir iddynt ddwyn ymreolaeth a rhyddid dioddefwyr-oroeswyr. Mae'n fath o gam-drin domestig sy'n cyfyngu ar annibyniaeth oedolion a phlant. Canfu Myhill (2015)[8] ei fod yn fwy tebygol o gael ei gyflawni gan ddynion yn erbyn menywod a phlant. Yn wahanol i fodelau cam-drin lle ceir digwyddiadau unigol, mae theori rheolaeth drwy orfodaeth yn ystyried y ffordd y mae ymddygiadau parhaus yn creu amgylcheddau ynysig, gofidus a rheolaethol i ddioddefwyr-oroeswyr.

Nodweddion allweddol rheolaeth drwy orfodaeth:

- Patrymau o ymddygiad yn hytrach na digwyddiadau digyswllt.
- Cyflawnwr/cyflawnwyr yn goruchafu neu'n arfer pŵer a rheolaeth dros y dioddefwr-oroeswr/dioddefwyr-oroeswyr.
- Llithio ac ofn.
- Amddifadu o ryddid ac ymreolaeth.
- Tactegau rheolaethol amrywiol, gan gynnwys cam-drin corfforol neu hebddo
- Goruchwylio a monitro.
- Cyfyngu (rhyddid, dewis, anghenion sylfaenol, cyllid, symudiadau ac ati).
- Iselhau a chodi cywilydd.
- Defnyddio systemau mewn ffordd benodol ac fel arfau, gan gynnwys llysoedd teulu.

7 Coercive Control: How Men Entrap Women in Personal Life | Oxford Academic
8 Measuring Coercive Control: What Can We Learn From National Population Surveys? – Andy Myhill, 2015

## Pwynt Ymarfer

### Ymddygiad Gorfodaethol

Gweithred neu batrwm o weithredoedd yw ymddygiad rheolaethol, megis ymosodiadau, bygythiadau, ymgeisiau i godi cywilydd a bygylu neu gamdriniaeth arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu godi ofn ar ddioddefwr-oroeswr.

Fel rhan o reolaeth drwy orfodaeth, defnyddir tactegau mynych, parhaus a bwriadol i gyfyngu ar ryddid y dioddefwr. Gall y tactegau hynny fod yn gorfforol, ond nid o reidrwydd. Gallant fod yn rhywiol, yn economaidd, yn seicolegol, yn gyfreithiol, yn sefydliadol, neu bob math ar unwaith.

Drwy ddefnyddio'r tactegau hyn, gall cyflawnwyr greu byd lle mae dioddefwyr-oroeswyr yn cael eu monitro neu eu beirniadu'n gyson, gan leihau eu hyder a'u gallu i weithredu.

Gall dioddefwyr-oroeswyr ddisgrifio rheolaeth drwy orfodaeth fel sefyllfa lle nad ydynt 'yn cael' gwneud pethau pob dydd neu lle eu bod yn gorfod gofyn am ganiatâd i wneud pethau pob dydd; a lle bod ofn parhaus arnynt y byddant yn methu â chyrraedd disgwyliadau'r cam-driniwr neu gydymffurfio â gofynion y cam-driniwr. Yn aml byddant yn dweud eu bod yn teimlo'n betrus drwy'r amser. Nid yw rheolaeth drwy orfodaeth yn amlwg bob amser a gall fod yn heriol i weithwyr proffesiynol ac oedolion a phlant sy'n ddioddefwyr-oroeswyr ei hadnabod.

Oherwydd ei chymhlethdod, mae'n rhaid i ni fod yn wyliadwrus drwy gydol achos, o'r cam sgrinio cychwynnol i'r argymhellion terfynol mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat.

Os bydd rhywun yn datgelu neu'n disgrifio ymddygiad sy'n gyson â rheolaeth drwy orfodaeth, nid ydym yn annog cyfarfodydd ar y cyd rhwng y partïon ar unrhyw gam yn ystod yr achos.